

PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Y Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.M. Ball, C.A. Cave, A.M. Collines, C.M. Cowpe, S. Lloyd-Selby, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman, H.M. Payne a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

105 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

106 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin, 2022 fel cofnod cywir.

107 DATGANIADAU BUDDIANT –

Y Cynghorydd H.M. Payne	Eitem Agenda 7 - Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22 - Fersiwn Herio	Buddiant Personol – Roedd y Cynghorydd Payne, yn rhinwedd ei swydd broffesiynol y tu allan i'r Cyngor, yn rheoli gwasanaethau ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Tenantiaeth Newlans, a dywedodd pe bai trafodaethau ar y pwnc yn ystod y cyfarfod y byddai'n gadael yr ystafell.
Y Cynghorydd J. Lynch-Wilson	Cyffredinol	Buddiant Personol – Cyflogwyd y Cynghorydd Lynch-Wilson, yn

		rhinwedd ei swydd broffesiynol y tu allan i'r Cyngor, mewn cartref gofal preifat yn ardal Bro Morgannwg a dywedodd y byddai'n ystyried unrhyw fuddiant posibl drwy gydol y cyfarfod.
--	--	--

108 ADRODDIAD DIOGELU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL: 2021/22 (CYF) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol dros Ddiogelu a Chanlyniadau Gwasanaeth y cyfeiriad chwemisol o'r Cabinet a godwyd yng Nghyfarfod y Cabinet ar 9 Mehefin, 2022.

Roedd gan y Cyngor gyfrifoldeb corfforaethol i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion yr oedd angen gwasanaethau penodol y Cyngor arnynt. Felly, roedd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22 yn rhoi trosolwg o'r gweithgareddau Diogelu Corfforaethol a oedd wedi digwydd ar draws yr Awdurdod Lleol ers i'r adroddiad canol blwyddyn gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog a chwestiynau dilynol a godwyd gan y Pwyllgor, dywedodd y Swyddog y canlynol:

- O ran oedolion a gafodd eu hasesu fel rhai a oedd angen gofal, ond nad oeddent yn derbyn gofal eto, cymerwyd y camau diogelu canlynol:
 - Neilltuo sgôr risg i'r unigolyn yn ystod yr asesiad cychwynnol a hysbysu'r tîm diogelu os oedd angen,
 - Cadw cysylltiad rheolaidd â'r unigolyn er mwyn monitro amgylchiadau a sicrhau bod manylion cyswllt yn cael eu diweddarau,
 - Cynnal 'Gwiriadau Lles' ffurfiol gyda'r unigolyn, a
 - Cynnal cyfarfodydd wythnosol gyda staff i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu o ran llwythi achosion.
- Roedd y Tîm Diogelu Oedolion wedi derbyn 816 o adroddiadau Diogelu rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 ac roedd pob achos wedi cael canlyniad a oedd yn cael ei gofnodi'n fewnol. Roedd y ffigwr o 816 yn ymwneud â nifer yr oedolion unigol mewn perygl a chydabuwyd y gellid cynnwys dadansoddiad ystadegol mwy manwl ar y ffigwr cyffredinol mewn fersiynau o'r adroddiad yn y dyfodol er mwyn rhoi dealltwriaeth gliriach o'r cyd-destun presennol ar gyfer y gwasanaeth.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cynnwys cyfeirnod y Cabinet a'r Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2021/22 atodedig.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad eglurhaol a'r adroddiad atodol ar waith a oedd wedi'i wneud i wella trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion.

109 MONITRO REFENIW AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2022 (CGC) –

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg y byddai'r sefyllfa refeniw ar gyfer 2021/22 yn parhau'n heriol i'r Cyngor yn weithredol ac yn ariannol oherwydd goblygiadau parhaus pandemig COVID-19. Roedd pwysau yn dod i'r amlwg yn ystod 2022/23 yn ymwneud â thaliadau ynni, chwyddiant cyffredinol yn enwedig mewn meysydd fel trafndiaeth ysgol a chostau byw a phwysau staffio ar draws gwasanaethau a byddai angen eu monitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn ariannol.

O ran cyllid o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, rhagwelir amrywiannau niweidiol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol o £220k a Gwasanaethau Hamdden £500k yn 2022/23 a chynigiwyd y dylai'r rhain gael eu gwrthbwysu gan gyfraniadau o gronfeydd wrth gefn.

Yng nghyd-destun y bwch rhwng y pwysau cost a ddyfarnwyd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a difrifoldeb y pwysau cost a amlygwyd gan y gwasanaeth a'r angen i greu capasiti parhaus i ymateb i lefel uwch o angen, cynigir bod y pwysau sy'n weddill yn cael eu hariannu drwy raglen gyllideb sy'n defnyddio'r balansau a gronnwyd yng Nghronfeydd Wrth Gefn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Nodwyd trosglwyddiad sy'n adlewyrchu defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2022/23 ym mharagraff 2.16 o'r adroddiad.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refinew 2022/23 yr Awdurdod, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.
- (2) NODI'r trosglwyddiadau sydd eu hangen yn y Gyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r alldro refeniw rhagamcanol ar gyfer 2022/23 ac ail-alinio'r cyllidebau.

110 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAY 2022 (CGC) –

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mai, 2022. Dangoswyd y manylion fesul cynllun yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Nododd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg fod yr adroddiad yn nodi unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r blynyddoedd i ddod.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau gan y Pwyllgor, diolchodd yr Is-gadeirydd i swyddogion am gynhyrchu fersiynau llawer cliriach a thrylwyr o'r ddau adroddiad cyllid ar yr agenda a gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

- (1) Y DYLID nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23 ar gyfer y cynlluniau sydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.
- (2) NODI'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig mewn perthynas â phrosiectau a nodir yn Argymhelliad (2) o'r adroddiad.
- (3) NODI'r defnydd o Bwerau Argyfwng fel y manylir arnynt yn Atodiad 1 yr adroddiad.
- (4) BOD y newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r blynyddoedd i ddod, fel y nodir yn Argymhelliad (4) o'r adroddiad, yn cael eu nodi.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) O ystyried cynnwys yr adroddiad ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf, y defnydd o o Awdurdod Dirprwyedig, y defnydd o Bwerau Argyfwng a newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

111 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2021-2022 – FERSIWN HER (CGC) –

Roedd fersiwn her o adroddiad y Cyfarwyddwr (adroddiad SWAY Microsoft mewn hyperddolen yn yr adroddiad cyflwyno) yn rhoi cyfle i aelodau a rhanddeiliaid wneud sylwadau a fyddai'n sail wybodaeth ar gyfer drafft terfynol yn y dyfodol a fyddai'n cael ei ystyried gan y Cabinet ym mis Medi 2022. Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu ar y cynnydd dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf gan gysylltu ag amcanion yn y Cynllun Corfforaethol a oedd yn adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Fel rhan o ddyletswyddau statudol, fe wnaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol iddynt lunio adroddiad blynyddol ar effeithiolrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol ym Mro Morgannwg ac ar gynlluniau gwella'r Cyngor. Rhoddodd hyn gyfle i'r Cyfarwyddwr

roi darlun crwn o wasanaethau cymdeithasol i bobl yn y Fro – yn seiliedig ar dystiolaeth a gafwyd o ystod eang o ffynonellau megis yr hyn a ddywed defnyddwyr a gofalwyr, dangosyddion perfformiad allweddol, a mesuriadau o gynnydd yn erbyn nodau cyffredinol y Cyngor.

Cafodd yr adroddiad ei ysgrifennu ar gyfer ystod eang o bobl, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ond hefyd Aelodau Etholedig, staff y Cyngor ei hun, a'r amrywiaeth o bartneriaid a darparwyr a helpodd y Cyngor i ddarparu ei wasanaethau. Cafodd ei ddefnyddio hefyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel tystiolaeth ac i arwain eu rhaglen arolygu ym Mro Morgannwg.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr, wrth gynllunio sut y bydd y Cyngor yn darparu gwasanaethau dros y blynyddoedd nesaf, fod y Cyngor wedi rhoi Cynllun Gwasanaeth ar waith i gwmpasu'r cyfnod hyd at 2023 a oedd yn rhoi trosolwg o waith gwella'r Gyfarwyddiaeth.

Rodd y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o flynyddoedd mwyaf heriol y Gwasanaethau Cymdeithaso. Fe wnaeth y pandemig roi gwasanaethau gofal cymdeithasol y Cyngor dan bwysau aruthrol a wnaeth herio'n sylweddol y ffordd yr oedd yn darparu ei wasanaethau ac yn cyflawni ei rolau a swyddogaethau statudol. Wrth i'r Cyngor ddod allan o'r sefyllfa roedd gwaddol y cyfnodau clo, y pandemig a Brexit wedi arwain at gynnydd sylweddol o ran y galw a heriau staffio difrifol.

Er bod y Cyngor yn rhagweld y byddai'r heriau'n parhau am flynyddoedd i ddod, roedd yn esblygu ac yn addasu ei ymateb i'r tirwedd newidiol ac ansicr. Roedd dull gweithredu'r Cyngor wedi cael ei ddiffinio gan ei allu i hybu ei weithlu i weithio mewn ffyrdd newydd. Byddai hyn wedi bod yn amhosibl ei gyflawni heb ymroddiad a gwydnwch ei staff.

I gloi, dywedodd y Cyfarwyddwr, fel rhan o'r broses her, bod yr adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu er mwyn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig gyfrannu eu barn. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn garreg filltir allweddol wrth gwblhau'r adroddiad oherwydd y rôl hanfodol oedd gan y Pwyllgor o ran goruchwylio a monitro'n gyson y gwasanaethau cymdeithasol.

Dechreuodd y Cynghorydd Lynch-Wilson drafod yr eitem drwy ganmol swyddogion ar y gwasanaeth cyflenwi Offer Diogelu Personol gwych a weithredwyd drwy gydol y pandemig a oedd yn hanfodol i helpu teuluoedd i ymweld â pherthnasau mewn lleoliad cartref gofal; yn enwedig y Pod Ymweliadau a oedd yn ysbrydoledig ac yn llwyddiant mawr.

Fe wnaeth yr aelodau longyfarch swyddogion ar adroddiad hygyrch a defnyddiol a oedd yn cynnwys astudiaethau achos pwerus i ddangos y gwaith hanfodol sy'n cael ei wneud ar draws y gyfarwyddiaeth a chodi'r awgrymiadau canlynol:

- Roedd hi'n anodd barnu o'r ystadegau a ddarparwyd o fewn yr adroddiad her a oedd perfformiad gwasanaethau wedi datblygu ai peidio. Byddai'n ddefnyddiol i'r darlennydd gael mynediad at ddata cymharol megis ystadegau blynyddol blaenorol neu fesurau perfformiad Llywodraeth Cymru i nodi pwysau a llwyddiannau gwasanaethau.

No.

- Roedd yr adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r darllenydd gael lefel benodol o ddealltwriaeth ar y gwahanol wasanaethau a'u hamcanion, felly, byddai'n fuddiol i'r darllenydd gael esboniad o ran cyd-destun.
- Defnyddiwyd amryw acronymau yn rheolaidd gan Swyddogion y Cyngor ac roedd angen i Aelodau hefyd addysgu eu hunain ar y rhain i ddeall yn gywir yr adroddiadau a ddarperir i'r Pwyllgor. Felly, byddai'n ddefnyddiol i aelodau gael copi yn y dyfodol o ganllaw i ddechreuwr i Acronymau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, dylid hefyd sicrhau bod unrhyw acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad her yn cael eu hesbonio'n llawn.

Diolchodd y Cyfarwyddwr i'r aelodau am eu mewnbwn ac mewn ymateb i'r awgrymiadau a godwyd dywedodd:

- Roedd peth anghysondeb o ran sut yr oedd y cyngor wedi ymateb i fesurau perfformiad oherwydd y ffaith bod mesurau'n newid yn rheolaidd, fodd bynnag, byddai rhai mesurau perfformiad yn cael eu codi yn yr adroddiad monitro perfformiad yn ddiweddarach ar yr agenda er gwybodaeth i aelodau. Cyn hynny roedd problemau cenedlaethol wedi bod gyda WICCIS a oedd wedi effeithio ar gywirdeb perfformiad adrodd, fodd bynnag, mae'r sefyllfa hon wedi gwella ers hynny. Cydnabuwyd y byddai angen ystadegau pwrpasol ar aelodau etholedig mewn perthynas â Bro Morgannwg. Roedd fersiynau blaenorol o'r adroddiad her wedi cynnwys ystadegau blynyddol uniongyrchol i gymharu, fodd bynnag, barnwyd bod y rhain yn feichus ac felly cydnabuwyd bod fersiwn gyfredol yr adroddiad wedi mynd yn rhy bell o gymharu â fersiynau cynharach.
- Byddai esboniad ychwanegol o bob gwasanaeth yn yr adran 'Sut Rydym yn Llunio ein Gwasanaethau' i wella gwybodaeth gyd-destunol i'r darllenydd yn cael ei ychwanegu.
- Byddai'r adroddiad yn cael ei wirio o ran y defnydd o acronymau a byddai esboniadau llawn yn cael eu hychwanegu lle bo angen.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r blaenoriaethau gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y'u hamlinellir yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar gyfer 2021-29022 Fersiwn Her.

(2) BOD y cynigion canlynol yn cael eu cynnwys yn fersiwn herio'r adroddiad:

- Mwy o fynediad at ystadegau blynyddol cymharol a/neu fesurau perfformiad Llywodraeth Cymru i nodi'n fwy cywir y pwysau a/neu'r cynnydd a wnaed;
- Esboniad ychwanegol o bob maes gwasanaeth yn yr adran 'Sut rydym yn Llunio Ein Gwasanaethau' i wella gwybodaeth gyd-destunol i'r darllenydd; a
- Sicrhau bod pob acronym a ddefnyddir yn cael eu hesbonio'n llawn i'r darllenydd.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Ystried cynnwys yr adroddiad a thrafodaeth yn y cyfarfod i gyfrannu at y broses herio ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 2021-2022.

112 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI
BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2021/22 (CGC) –

Roedd yr adroddiad perfformiad, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, yn nodi cynnydd y Cyngor yn Chwarter 4 (Ch4) (1 Ebrill i 31 Mawrth 2022) tuag at gyflawni ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol (2021/22) fel y'u haliniwyd ag Amcanion Lles ei Gynllun Corfforaethol.

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i bob un o 4 Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol yn Ch4 i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed hyd yma. Roedd hyn yn gadarnhaol o ystyried yr heriau parhaus sy'n deillio o'r pandemig.

Roedd Atodiad A i'r adroddiad yn amlinellu perfformiad y Cyngor yn erbyn ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2021/22 fel y'u haliniwyd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y DYLID nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(3) NODI'r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer y Cyngor a Chynlluniau Adfer y Gyfarwyddiaeth mewn ymateb i'r pandemig Coronafeirws parhaus.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 gyda'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni ei ofynion perfformiad fel y'u hamlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac sy'n adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei fod yn manteisio i'r eithaf ar ei gyfraniad at gyflawni nodau llesiant Cymru.

No.

(3) Sicrhau bod Aelodau'n cadw trosolwg o'r materion adfer sy'n effeithio ar waith y Cyngor a'u Pwyllgorau Craffu priodol.